

Croeso i'n cylchlythyr cyntaf!

Mae ardal Crindau o Gasnewydd mewn perygl sylweddol o gael ei effeithio gan lifogydd llanwol gyda thua 650 o eiddo mewn perygl. Yn dilyn ymgysylltiad gyda rhanddeiliad ac ymgynghori â nifer o ymgynghorion statudol, tirfeddianwyr, y cyhoedd a chyfranogion mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu cynllun lliniaru llifogydd. Bydd y cynllun yn ymestyn ar hyd glannau Crindau Pill a'r Afon Wysg rhwng traffordd yr M4 a'r brif reilffordd.

Yn ogystal, bydd ardal amwynder newydd yn cael ei adeiladu i wella'r amgylchedd lleol. Bydd arglawdd yn rhedeg drwy Parc Shaftesbury a byddwn yn creu terasau glaswelltog i bobl eistedd a gwyllo'r gemau ar y cae chwarae. Bydd y Parc hefyd yn elwa o lwybrau newydd a llwybrau beicio yn ogystal â choed a llwyni.



Yr hanes hyd yma...

Penodwyd Galliford Try fel ein prif contractwyr yn 2016 ac mae'r gwaith ar y gweill ers tipyn o amser. Sefydlwyd y prif safle i ddarparu lle i staff, peiriannau ac ardaloedd storio. Fe gwblhawyd y gwaith o glirio llystyfiant a chwympo coed ar draws y safle yn barod ar gyfer adeiladu mur llifogydd newydd. Hefyd dymchwelwyd rhan adfeiliedig (bloc toiled) o ystafelloedd newid Parc Shaftesbury.

Mae Galliford Try yn ceisio defnyddio cyflenwyr a busnesau lleol i ymgymryd â'r gwaith, gan helpu i gryfhau'r economi lleol. Fe ddarparwyd 2000 tonnell (hyd yma) o gerrig o Chwarel Ffynnon-Taf, Pentyrch. Hefyd fe fydd concriid a dur ar gyfer yr adrannau o'r wal goncrit yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr lleol.



Beth yw'r camau nesaf?

Bydd y gwaith o bentyrru haenau dur (adrannau o ddu cydglodol sy'n gwneud wal hir) yn cychwyn tua diwedd mis Chwefror y tu ôl i Harold John (Metal) Ltd, gan symud ymlaen i wneud gwaith pentyrru i'r de o Bont Heol Lyne.

Ar hyn o bryd mae'r ardaloedd canlynol yn cael eu paratoi a'u diogelu ar gyfer pentyrru:

- **MUGA ac ardal chwarae i blant Parc Shaftesbury** - bydd ffens dros dro yn cael ei godi o amgylch yr ardaloedd ac ni fyddant ar agor i'r cyhoedd, tan fydd y gwaith wedi cael ei gyflawni.
- **Mynedfeydd Parc Shaftesbury** - bydd y llwybr troed o McDonalds i Parc Shaftesbury ar gau tan hyd nes ceir rhybudd pellach. Bydd dargyfeiriad dros dro arall ar gael. Yn ystod y gwaith bydd y mynediad ar gornel Stryd Pugsley ar gau. Bydd hysbysiadau lleol yn rhoi gwybodaeth am fynedfeydd eraill gellir eu defnyddio.
- **Ystafelloedd newid Parc Shaftesbury** - sicrhair mynediad i'r ystafelloedd newid ar gyfer gemau pêl droed.
- **Gerddi, Stryd Pugsley** - bydd angen cloddio sylfeini ar gyfer y wal. Bydd y llwybr yn y gerddi ar gau dros dro.
- **Llwybr troed tu cefn i'r gerddi** - bydd hwn yn parhau i fod ar gau.

Gweithio gyda'r Gymuned

Mae CNC a Galliford Try yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r gymuned leol a darparu manteision ychwanegol drwy'r cynllun hyn. Rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith i bobl ac wedi dosbarthu llythyrau i holl drigolion a busnesau lleol yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

Rydym wedi gwella ardal darllen yn yr awyr agored Ysgol Gynradd Crindau drwy ddarparu boncyffion a bonion coed fel seddi. Hefyd rydym wedi clirio'r llwybr sy'n arwain at eu hardal ysgol goedwig.

Darparwyd tomwellt ar gyfer y gerddi yn Stryd Pugsley o'r gwaith clirio llystyfiant a thorri coed ar y safle.

Hefyd rydym yn cefnogi prosiect gwelyau blodau uwch tu allan i Ganolfan Cymunedol Shaftesbury..

Os ydych yn elusen leol neu'n ceisio gwneud rhywbeth cadarnhaol ar gyfer eich cymuned gadewch i ni wybod amdano ac efallai y bydd modd i ni i'ch helpu cyflawni eich nod!

Cysylltwch â Gino Salvatore os hoffech drafod unrhyw beth sy'n ymwneud â gweithgareddau cymunedol neu adeiladu.

Ffôn: 07918 640481

Ebost:

gino.salvatore@gallifordtry.co.uk



Digwyddiad Galw Heibio Nesaf i'r Cyhoedd

Byddwn yn Ysgol Gynradd Crindau yn ystod y noson rieni, ar gyfer rieni a gofalwyr yn unig, ar 15fed Chwefror rhwng 4:30-8:00 pm.

Byddwn yn cyhoeddi dyddiad ar gyfer digwyddiad Galw Heibio i'r Cyhoedd yn fuan.

Ceir byrddau gwybodaeth y prosiect yng Nghanolfan Cymunedol Shaftesbury ac yn yr hen adeilad National Plastics yn Stryd Albany.

Gall unrhyw un sy'n pryderu am lifogydd wirio eu perygl llifogydd, a darganfod os gwasanaeth rhybuddio am lifogydd am ddim ar gael yn eu hardal drwy ffonio'r Floodline ar 0345 988 1188 neu drwy ymweld â www.cyfoethnaturiol.cymru/ llifogydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru/crindau